Côd Ymddygiad

Urdd

Urdd Gobaith Cymru

Mae gofyn i chi ddilyn yr isod i sicrhau cynnig Urdd o safon i bawb

1. **Rhaid** annog y Gymraeg ym mhob digwyddiad.
2. **Rhaid** trin pawb gyda pharch.
3. **Rhaid** rhoi cyfle i pawb i fynegi eu barn a chyfrannu at benderfyniadau.
4. **Rhaid** rhoi esiampl o ymddygiad da yr hoffech i eraill ei ddilyn.
5. **Rhaid** cynllunio gweithgareddau gan sicrhau bod mwy nag un oedolyn yn bresennol neu o leiaf mewn clyw neu yng ngolwg eraill.
6. **Rhaid** parchu hawl pawb i breifatrwydd personol.
7. **Rhaid** sicrhau trefniadau cysgu ar wahân i arweinyddion a phlant a phobl ifanc.
8. **Rhaid** sicrhau ac annog defnydd diogel o'r cyfryngau cymdeithasol wrth gyfathrebu gyda plant, pobl ifanc ac oedolion.
9. **Rhaid** rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod unrhyw fater sy'n eu poeni.
10. **Rhaid** annog pawb i deimlo'n gyfforddus ac yn ddigon hyderus i dynnu sylw at agweddau neu ymddygiad nad ydynt yn ei hoffi.
11. **Rhaid** osgoi sefyllfaoedd all beryglu eich perthynas gyda pherson ifanc. Fel gweithiwr / gwirfoddolwr mae yn erbyn y gyfraith i chi gael perthynas rywiol gydag aelod o dan 18 oed.
12. **Rhaid** cofio y gallai rhywun arall gamddehongli eich gweithredoedd, er cystal y bwriad.
13. **Rhaid** cydnabod bod angen gofal a chefnogaeth ar adegau sensitif wrth drafod a chynghori ar faterion megis bwlio, profedigaeth neu gam-drin.
14. **Rhaid** gweithredu egwyddorion ac ethos Urdd Gobaith Cymru.
15. Rhaid i chi hysbysu'r Urdd os ydych dan ymchwiliad troseddol neu honiad am ddiogelu plant a phobl ifanc.

Nid yw'r isod yn ymddygiad derbyniol

1. **Peidiwch** â chaniatáu gweithgareddau dilornus ymhlith aelodau (e.e. defodau derbyn, dilorni eraill, bwlio).
2. **Peidiwch** â bod yn rhan o gemau corfforol gyda phlant a phobl ifanc.
3. **Peidiwch** â chael cyswllt corfforol na llafar amhriodol gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion.
4. **Peidiwch** â neidio i gasgliadau am bobl eraill heb wneud yn siŵr o'r ffeithiau.
5. **Peidiwch** â chaniatáu cael eich denu gan ymddygiad sy'n tynnu sylw amhriodol megis pwl o dymer ddrwg neu 'crysh'.
6. **Peidiwch** â dangos ffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn.
7. **Peidiwch** â gwneud sylwadau nac arwyddion awgrymog o flaen plant a phobl ifanc ac oedolion.
8. **Peidiwch** â gadael i amheuon datgeliadau neu gyhuddiadau o gam-drin fynd heb eu cofnodi neu eu cyfeirio (gweler canllawiau Diogelu Plant a phobl ifanc Urdd Gobaith Cymru).
9. **Peidiwch** â chredu "na all hyn byth ddigwydd i mi".

Peidiwch ag anghofio bod cefnogaeth ar gael gan staff proffesiynol Urdd Gobaith Cymru.

Mae staff sy'n gofrestredig gyda'r CGA hefyd yn ymrwymedig i ddilyn Cod ymarfer Proffesiynol yr CGA.

Rhaid ymddwyn mewn modd proffesiynol gan gofio eich bod yn cynrychioli'r Urdd.

urdd.cymru